Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2025

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Chwefror 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


### © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


### Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Ciplun archwiliad | | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | | 7 |
| Ein canfyddiadau | | 8 |
| Argymhellion | | 32 |
| 1 | Ynglŷn â'n gwaith | 35 |
| 2 | Argymhellion archwilio blaenorol | 38 |
| 3 | Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 44 |
| 4 | Ffurflen ymateb y rheolwyr | 47 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried pa mor dda y mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) yn cael ei lywodraethu a pha un a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Fe wnaethom fwrw golwg ar bedwar maes yn arbennig:

- pa mor dda y mae ei fwrdd yn gweithio;
- sut y mae'n cadw golwg ar risgiau, perfformiad, ansawdd gwasanaethau, ac argymhellion;
- sut y mae'n cynhyrchu cynlluniau a strategaethau allweddol; a
- sut y mae'n rheoli ei gyllid.

2 Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran rhoi argymhellion ar waith o'r canlynol:

- adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol; a hefyd
- ein hadroddiad yn 2024 ar arbed costau.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae cyrff y GIG yn dal i wynebu ystod eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r angen i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau i ymdrin â chyllid cyfyngedig, galw cynyddol, ôl-groniadau triniaeth, prinderau o fewn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Mae'n bwysicach nag erioed felly bod gan fyrddau cyrff y GIG drefniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol cryf. Mae hyn yn helpu i roi sicrwydd iddynt hwy eu hunain, i'r cyhoedd, ac i randdeiliaid allweddol eu bod yn cymryd y camau cywir i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd da ac i ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

4 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n rhedeg yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae cyfarfodydd yn cael eu rheoli'n dda, ac mae gwybodaeth yn dal i fod o safon dda. Ceir ymrwymiad parhaus o hyd i glywed gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau ac mae sesiynau crwydro'r Bwrdd wedi datblygu'n gadarnhaol. Fodd bynnag, gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau bod y lefel o graffu mewn cyfarfodydd yn dal i fod o safon sy'n gyson yn uchel i ymdrin â'r heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu.

5 Mae adroddiadau ar berfformiad yn dal i fod yn dda ac mae trefniadau uwchgyfeirio wedi gweithio'n dda i wasanaethau sydd wedi bod yn ddarostyngedig iddynt. Mae cynhyrchu cynlluniau a strategaethau'n dal i fod yn ymdrech ar y cyd a cheir tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn mapio trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, byddai o fudd i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr Adroddiad Ansawdd Integredig yn cyflwyno naratif cliriach a sicrhau mwy o eglurder ynghylch y cysylltiadau rhwng cynlluniau corfforaethol. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu ei broses rheoli risgiau yn ddiweddar, byddai o fudd adolygu'r trefniadau cyfredol o ran cofrestrau risgiau i sicrhau y gwahaniaethir yn fwy eglur rhwng risgiau strategol a gweithrediadol.

6 Mae sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn dal i achosi pryder. Rhagwelir diffyg sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn 2025-26 ac mae cyflawni cynllun arbedion cyfredol y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn her. Nid oedd y Bwrdd na Llywodraeth Cymru yn gallu cymeradwyo Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd oherwydd y sefyllfa ariannol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod â dealltwriaeth dda am ei bwysau o ran costau ond effeithir ar y newid i fodel gwasanaeth mwy fforddiadwy gan oedi wrth roi'r model trawsnewid 'Gwell Gyda'n Gilydd' ar waith oherwydd cymhlethdod a chapasiti o ran adnoddau.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

7 Rydym wedi cyflwyno saith argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd:

- eglurhau atgyfeiriadau yn logiau gweithredu pwyllgorau;

- mireinio’r cofrestrau risgiau strategol a sefydliadol ymhellach;
- diweddaru fformat yr Adroddiad Ansawdd Integredig;
- cysylltu cynlluniau corfforaethol yn fwy eglur;
- cynnwys arbedion gwirioneddol hyd yma mewn adroddiadau cyllid;
- adrodd ar weithgarwch ac effeithiau gweithgorau ariannol; a
- threfnu hyfforddiant ariannol pellach i Aelodau Annibynnol.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

O dan drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd Iechyd ar Lefel 4 ar gyfer Cyllid, Strategaeth a Chynllunio.

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Blynyddol na Chynllun Tymor Canolig Integredig a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i adennill costau ei wariant refeniw dros y cyfnod o dair blynedd 2022-25, gan adrodd ar ddiffyg cronnol o £34.7 miliwn ar gyfer 2022-25.

Yn 2024-25, fe gyflawnodd y Bwrdd Iechyd arbedion o £11.7 miliwn, yn erbyn targed arbedion o £9.9 miliwn. Roedd dros £6 miliwn yn rhai cylchol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg o £28.3 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn 2025-26, yn erbyn disgwyliad gan Lywodraeth Cymru o £16.5 miliwn a diffyg cyfanswm rheoli o £12 miliwn.

Ym mis saith, rhagwelid y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni gwerth £18.2 miliwn o arbedion yn erbyn targed blynyddol o £23.1 miliwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi saith allan o 16 argymhelliad ar waith yn llawn o'r rhai a oedd yn dal yn weddill o adolygiadau asesu strwythuredig blaenorol. Mae chwech wedi'u rhoi ar waith yn rhannol, ac mae tri yn rhai na weithredwyd arnynt o gwbl.

# Ein canfyddiadau

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a pha mor agored ydyw

**Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n parhau i weithio'n dda, ond mae angen rhagor o weithredu i adolygu polisïau sydd wedi dyddio a thracio camau gweithredu a atgyfeiriwyd**

### Pa mor agored i'r cyhoedd yw busnes y Bwrdd

8 Mae'r Bwrdd yn parhau i hybu'r arfer o fod yn agored ac yn dryloyw. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae holl gyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw, a gall y cyhoedd gael mynediad at recordiadau o gyfarfodydd blaenorol trwy wefan y Bwrdd Iechyd, sy'n hybu hygyrchedd. Mae cyfarfodydd pwyllgorau'n dal i gael eu cynnal yn rhithwir hefyd, ac mae agendâu a chofnodion ar gael yn gyhoeddus ar-lein.

9 Mae papurau agendâu'r Bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd. Mae agendâu hefyd yn gwahodd aelodau'r cyhoedd i godi cwestiynau i'r Bwrdd.

10 Mae'r Bwrdd yn cynnal y rhan fwyaf o'i fusnes mewn sesiynau cyhoeddus. Mae'r Bwrdd a phwyllgorau'n gwneud defnydd priodol o sesiynau preifat, gan ddefnyddio'r rhain ar gyfer materion cyfrinachol a sensitif dim ond yn unol â phrotocol cymeradwy'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn parhau i ddarparu trosolwg lefel-uchel o eitemau a drafodwyd yn breifat, trwy Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, yng nghyfarfod cyhoeddus dilynol y Bwrdd i ategu tryloywder.

## Rhoi cymorth i gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol

11 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i fonitro a diweddaru ei fframweithiau rheoli craidd. Fe gymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Dirprwyo diwygiedig ym mis Mawrth 2025. Mae'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog wedi'u diweddaru hefyd ac ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Bwrdd Iechyd.

12 Ers ein hasesiad strwythuredig blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer datganiadau o fuddiant. Fe gymeradwyodd y Bwrdd Bolisi Safonau Ymddygiad wedi'i ddiweddaru yn 2025 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr Cynorthwyol, Ymgynghorwyr ac aelodau o staff â goruchwyliaeth arwyddocaol ar gyllidebau neu gomisiynu gael eu cynnwys ar y gofrestr Datganiadau o Fuddiant. Rhoddwyd hyn ar waith, ac fe gafodd y Bwrdd y copi diweddaraf o'r Datganiad o Fuddiannau a Chofrestr Buddiannau'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2025.

13 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi trefnu bellach bod rhai polisïau a gweithdrefnau ar gael ar ei wefan. Mae hyn yn cynnwys y Gofrestr Buddiannau a'r Polisi a Fframwaith Safonau Ymddygiad. Er bod tudalen polisïau ar wefan y Bwrdd Iechyd, mae'r mwyafrif o'r polisïau ar gael ar gais, yn hytrach na'u bod yn uniongyrchol hygyrch o'r wefan. Mae hyn yn cyfyngu ar fynediad y cyhoedd at bolisïau megis 'Gweithio i Wella' a'r 'Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol' ac nid yw'n gyson â'r holl Fyrddau Iechyd eraill yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dynodi na fydd yn amcanu at wneud yr holl bolisïau'n gyhoeddus ar hyn o bryd oherwydd materion capasiti.

14 Fe gymeradwyodd y Bwrdd ei bolisi Rheoli Polisïau a Dogfennau Rheolaeth Ysgrifenedig Eraill ym mis Mai 2025. Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn asesu'r modd y cydymffurfir â'r polisi a'i effeithiolrwydd o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno diweddariad i'r Bwrdd nac i bwyllgorau perthnasol ynghylch faint o bolisïau sydd wedi dyddio na pha bolisïau y mae a wnelo'r rhain â hwy. Nid yw hyn yn galluogi'r Bwrdd a phwyllgorau perthnasol i fod â goruchwyliaeth ar y maes pwysig hwn.

## Sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y Cydbwyllgor Comisiynu

15 Fe sefydlwyd y Cydbwyllgor Comisiynu ym mis Ebrill 2024 fel cydbwyllgor rhwng y saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae’n cynllunio ac yn chomisiynu ystod o wasanaethau arbenigol a gwasanaethau gofal iechyd eraill, gan gynnwys gwasanaethau meddygol argyfwng, ar ran y saith Bwrdd Iechyd.

16 Fel rhan o asesiad strwythuredig eleni, fe wnaethom adolygu pa un a yw’r Bwrdd yn cael y lefel gywir o sicrwydd ynghylch busnes y Cydbwyllgor Comisiynu, yn ogystal ag ymwneud y Bwrdd Iechyd â chyfarfodydd a gweithgareddau’r Cydbwyllgor Comisiynu. Canfuom fod y Bwrdd, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, a’r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch yn cael sicrwydd yn rheolaidd ynghylch gwaith y Cydbwyllgor Comisiynu. Maent yn cael hyn trwy grynodeb ysgrifenedig a ddarperir gan y Prif Weithredwr, sydd hefyd yn cynnwys dolen i gofnodion cyhoeddus y Cydbwyllgor Comisiynu. Ym mis Ionawr 2025, rhoddodd Cadeirydd y Cydbwyllgor Comisiynu a’r Prif Gomisiynydd gyflwyniad i aelodau’r Bwrdd hefyd, a oedd yn darparu trosolwg o waith y Cydbwyllgor.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau

17 Mae’r Bwrdd a phwyllgorau’n parhau i ddefnyddio’r agenda gydsynio’n dda, gan ryddhau amser i oruchwylio eitemau eraill mwy dybryd ar yr agenda. Gwelsom hefyd eitemau ar yr agenda gydsynio’n cael eu dwyn i mewn i’r brif agenda ar gyfer trafodaeth os oedd yn ofynnol. Felly yr oedd hi ar gyfer cynllun gwaith y pwyllgor yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Mai 2025.

18 Fe wnaeth pob pwyllgor ddiwygio a chadarnhau ei gylch gorchwyl cyn iddynt gael eu cymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2025. Fe wnaeth y Pwyllgor Cyflawni a Pherfformiad addasu ei gylch gorchwyl i ddiweddaru enw’r pwyllgor i’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae hyn yn rhoi adlewyrchiad gwell o’r gweithgarwch yn y cynllun gwaith a’r ffocws cryfach ar reoli ariannol. Mae diweddariadau eraill yn cynnwys:

- trosglwyddo goruchwyliaeth ar Systemau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd o'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad; a
- phennu'r Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth fel yr unig bwyllgor i geisio sicrwydd ynghylch cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

19 Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ddiweddaru aelodaeth pwyllgorau ym mis Gorffennaf 2025. Roedd hyn mewn ymateb i hunanasesiadau blynyddol ac adborth aelodau, ac yn cynnwys penodi cadeirydd newydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i ddiweddaru'r trefniadau Cadeirydd interim. Fe wnaeth y diweddariadau ystyried sgiliau unigolion a gofynion pob pwyllgor yn y dyfodol hefyd, gan gynnwys maint a graddfa rhaglenni gwaith. Mae hyn yn dangos dull ystwyth o ddefnyddio'r capasiti o ran Aelodau Annibynnol yn y ffordd orau posibl. Gwelsom hefyd graffu gwell o ganlyniad.

20 Mae cadeiryddion yn rheoli cyfarfodydd yn dda ac yn cynnwys her a chefnogaeth gwrtais a chyson. Fodd bynnag, wrth i'r Bwrdd Iechyd wynebu heriau cynyddol i gyflawni, yn enwedig yn ariannol, bydd angen iddo gynnal ei lefelau uchel o graffu. Byddai hyn yn darparu rhagor o sicrwydd yn erbyn y risgiau cynyddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu.

21 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei brosesau ar gyfer uwchgyfeirio o bwyllgorau at y Bwrdd. Mae Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau wedi cael eu diweddaru fel eu bod ar fformat Rhybuddio/Cynghori/Sicrhau/Hysbysu newydd. Mae'r dull hwn yn sicrhau adroddiadau cyson, strwythuredig ac yn cryfhau goruchwyliaeth trwy amlygu materion allweddol, camau gweithredu a lefelau sicrwydd.

22 Fodd bynnag, gallai logiau gweithredu pwyllgorau fod yn fwy eglur. Ar hyn o bryd, cyflwynir logiau gweithredu ar daenlenni ym mhob pwyllgor ac maent yn cynnwys dyddiadau, yr arweinydd perthnasol, diweddariadau ar gynnydd a pha un a yw camau gweithredu ar y trywydd iawn. Mae logiau gweithredu hefyd yn nodi pan drosglwyddir cam gweithredu i grŵp arall. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys enw'r grŵp y mae'r cam gweithredu wedi cael ei drosglwyddo iddo na'r hyn a ddisgwylir gan y grŵp.

## Ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth i'r Bwrdd

23 Mae gwybodaeth i'r Bwrdd a phwyllgorau'n dal i fod o safon dda ac yn cael ei hadolygu'n gyson. Mae adroddiadau fel rheol yn cael eu cyflwyno mewn fformat safonol ac yn cynnwys cymysgedd o wybodaeth ar ffurf naratif ac ar ffurf graffiau. Fodd bynnag, mae rhai adroddiadau'n dal i fod yn naratif iawn eu natur a byddai o fudd eu crynhoi yn fwy.

24 Mae papurau'n cael eu dosbarthu ar amser fel rheol, ond ceir achlysuron o hyd lle mae papurau'n hwyr, rhywbeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gallai effeithio ar allu Aelodau'r Bwrdd i herio a chraffu'n effeithiol. Os yw Aelodau Annibynnol yn cael papurau hwyr, mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi pa eitemau fydd yn hwyr a phryd allant ddisgwyl eu cael. Mae aelodau'n ymwybodol faint o bapurau sydd, yn enwedig yn y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, er bod y Bwrdd Iechyd yn ymdrin â hyn. Mae hyn yn cynnwys gadael i aelodau weld adroddiadau Archwilio Mewnol cyn gynted â'u bod ar gael yn hytrach nag aros tan y cyfarfod nesaf.

## Clywed gan staff a defnyddwyr gwasanaethau

25 Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn ymrwymedig i glywed gan staff a chleifion. Mae staff wedi cael eu gwahodd i fynychu sesiynau Datblygu'r Bwrdd a Briffio'r Bwrdd i godi ymwybyddiaeth aelodau'r Bwrdd o sut y mae gwasanaethau'n gweithredu. Mae storïau cleifion yn ymddangos ar agendâu pwyllgorau hefyd lle y bo'n berthnasol i ddeall effaith gwasanaethau. Mae storïau cleifion bellach yn cyflwyno sbectrwm ehangach o brofiadau, yn rhai cadarnhaol a negyddol, ac maent yn cael eu cysylltu fel rheol ag eitemau eraill ar yr agenda.

26 Cafodd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant un stori staff yn 2024 ac un stori staff yn 2025.[1] Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried a fyddai gwybodaeth fwy rheolaidd am brofiad staff yn helpu'r pwyllgor i driongli gwybodaeth a deall llesiant staff yn well.

---

[1] Pwyllgor y Gweithlu a Diwylliant gynt

27 Mae’r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn cael diweddariadau rheolaidd ar flaenoriaeth strategol ‘Lle Gwych i Weithio’ y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cadw staff, ‘Codi Llais yn Ddiogel’, a’r Rhaglen Drochi Arweinyddiaeth Glinigol. Cafodd y Pwyllgor ganlyniadau Arolwg Staff y GIG 2024 ym mis Chwefror 2025 hefyd. Y Bwrdd Iechyd oedd â’r gyfradd ymateb uchaf o blith yr holl fyrddau iechyd ar 30%, er bod hyn yn dal yn isel.

28 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen rhagor o gapasiti i fesur a chasglu adborth cleifion a staff. Fe benododd y Bwrdd Iechyd Gydlynydd Fframwaith Profiad Pobl ym mis Mehefin 2025, gyda’r bwriad o gryfhau ei allu i gasglu a thriongli profiadau pobl a chyflwyno’r wybodaeth hon mewn adroddiad i’r pwyllgor perthnasol. Mae’r Bwrdd Iechyd yn disgwyl gweld allbynnau o hyn cyn diwedd mis Mawrth 2026.

29 Ers ein hasesiad strwythuredig blaenorol, mae’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran sesiynau crwydro aelodau’r Bwrdd. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi datblygu blaenraglen ar gyfer ymweliadau ‘Hwnt ac Yma’. Mae hon yn cwmpasu cyfnod o chwe mis gydag adolygiad bob deufis. Goleuir y rhaglen gan nifer o ffactorau megis risg, newid mawr i wasanaethau, neu feysydd newydd yr arloesir ynddynt, ac mae ymweliadau wedi cynnwys y Tîm Cynllunio, y Tîm Rheoli Therapïau a Gwyddor Iechyd ac Ysbyty Ystradgynlais. Mae’r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau Annibynnol i fod yn bresennol yn seiliedig ar argaeledd a diddordeb.

30 Mae’r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiadau ar yr ymweliadau trwy Adroddiad y Cadeirydd i’r Bwrdd. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi datblygu canllawiau ar gyfer sesiynau crwydro sy’n cynnwys llywodraethu ac adrodd. Bydd y Bwrdd Iechyd yn crynhoi ac yn adrodd ar dueddiadau a themâu o sesiynau crwydro wrth y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch bob chwe mis gyda’r adroddiad cyntaf i fod i gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2026. Bydd adolygiad blynyddol o’r rhaglen grwydro’n digwydd fel rhan o’r gwerthusiad blynyddol o effeithiolrwydd y Bwrdd.

## Cydlyniad y Bwrdd a’i wella’n barhaus

31 Mae’r Bwrdd yn dal i brofi peth newid ymhlith Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol ond mae’n rheoli’r broses hon yn dda.

32 Fe benododd y Bwrdd Iechyd ddau aelod annibynnol newydd yn 2025. Fe wnaeth yr Is-Gadeirydd adael y sefydliad ym mis Hydref 2025, ac mae Is-Gadeirydd newydd i fod i ymgymryd â'i swydd yn gynnar yn 2026. Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd, ac Iechyd Menywod a Theuluoedd ymddeol ym mis Hydref 2025 ar ôl cyfnod trosglwyddo i gefnogi'r swyddog newydd yn y rôl hon.

33 Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal adolygiadau o effeithiolrwydd y pwyllgor ar gyfer pob un o'i bwyllgorau, gydag adroddiadau blynyddol ar y canlyniadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd. Yn dilyn yr adolygiadau, mae pob pwyllgor yn cael Cynllun Gwella'n Barhaus ar gyfer y flwyddyn, sy'n cynnwys camau gweithredu a adnabuwyd a pherchnogion a graddfeydd amser cwblhau cysylltiedig. Mae agendâu'n parhau i roi cyfle i aelodau fyfyrio ynghylch cyfarfodydd a rhoi adborth, sy'n dangos datblygiad parhaus.

34 Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd gael ei sicrhau bod pob Aelod Annibynnol yn dangos yr ystod briodol o sgiliau a chraffu i ateb gofynion y rôl. Mae ein harsylwadau ar draws amryw gyfarfodydd pwyllgorau dros y 12 mis diwethaf wedi dynodi y byddai o fudd pe bai craffu gan Aelodau Annibynnol yn fwy cyson ar draws y garfan, trwy gynnig cymorth unigol wedi'i deilwra lle y bo'n briodol.

35 Mae'r Bwrdd yn parhau i gynnal sesiynau Datblygu'r Bwrdd misol, ac yn ystod ein cyfweliadau ni fe glywsom sut y mae'r rhain wedi bod yn werthfawr.

# Darparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau trefniadau ar gyfer goruchwylio perfformiad a thracio argymhellion ond mae angen adolygu'r dull cyfredol o reoli risgiau, a gallai gwybodaeth am ansawdd fod yn fwy eglur

### Rheoli risgiau strategol

36 Yn ein hasesiad strwythuredig blaenorol, fe wnaethom nodi nad oedd y Bwrdd Iechyd yn adnabod risgiau strategol ar wahân i risgiau corfforaethol. Fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ymhellach, mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi asesu a gwahanu risgiau mewn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiweddaru a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2025.

37 Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn cofnodi risgiau strategol ar y Gofrestr Risgiau Strategol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn perchnogi ac yn goruchwylio'r risgiau strategol, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u monitro gan y Pwyllgor Gweithredol cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Y Pwyllgor Gweithredol sydd hefyd yn gyfrifol am uwchgyfeirio risgiau i'r Gofrestr Risgiau Strategol a'u hisgyfeirio oddi arni.

38 Mae pwyllgor wedi cael ei ddyrannu i bob risg ar y Gofrestr Risgiau Strategol ar gyfer goruchwyliaeth a sicrwydd, ac mae pob cyfarfod pwyllgor yn cael diweddariad ar y risg berthnasol / risgiau perthnasol mewn cofrestr risgiau a gedwir gan y pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd hefyd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol ar sut y mae'r trefniadau rheoli risgiau diwygiedig yn ymwreiddio.

39 Mae’r Bwrdd yn cael y Gofrestr Risgiau Strategol lawn deirgwaith y flwyddyn sy’n cynnwys manylion yn erbyn pob risg strategol gan gynnwys dyddiad adolygu, achosion y risg, rheolaethau, mesurau lliniaru, a pherchennog y risg. Mae hefyd yn cynnwys y sgôr a roddwyd i’r risg a’i thaflwybr dros gyfnod o bedwar mis. Fodd bynnag, mae rhai risgiau strategol yn fwy manwl na’i gilydd, gyda rhai bylchau mewn gwybodaeth. Mae gan y Gofrestr Risgiau Strategol adran hefyd i restru unrhyw risgiau sefydliadol cysylltiedig sy’n cyd-fynd â risg strategol. Mae’r adran hon wrthi’n cael ei datblygu ochr yn ochr â’r Offeryn Rheoli Risgiau y mae’r Bwrdd Iechyd wrthi’n ei ddatblygu ar hyn o bryd.

40 Mae’r Bwrdd yn cael Adroddiad Cryno Risgiau Strategol yn y cyfarfodydd hynny lle nad yw’r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno’r Gofrestr Risgiau Strategol lawn. Mae’r adroddiad hwn yn darparu data cryno gan gynnwys sgôr y risg a’r parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer pob risg strategol. Y bwriad yw y bydd dangosfwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ceisio ac yn darparu sicrwydd bod camau gweithredu i reoli’r risgiau strategol yn ddigonol ac yn effeithiol. Mae hwn yn ddarn o waith sy’n mynd rhagddo’n barhaus ac yn dal i ddatblygu.

## Rheoli risgiau corfforaethol

41 Gelwir risgiau corfforaethol bellach yn risgiau sefydliadol ac fe’u delir ar y Gofrestr Risgiau Sefydliadol. Mae’r Pwyllgor Gweithredol yn goruchwylio ac yn monitro’r risgiau hyn trwy ddogfen cofrestr risgiau gynhwysfawr. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grŵp Arwain Gweithrediadol sy’n cynnwys y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol a Dirprwy Gyfarwyddwyr i oruchwylio materion traws-sefydliadol ar ran y Pwyllgor Gweithredol. Mae’r Grŵp hefyd yn gyfrifol am ddatblygu’r risgiau mwyaf arwyddocaol yn y sefydliad i’w cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Sefydliadol. Mae’r risgiau hyn yn cynnwys y rhai hynny a isgyfeiriwyd oddi ar y gofrestr risgiau corfforaethol flaenorol a’r rhai a uwchgyfeiriwyd yn unol â’r Fframwaith Rheoli Risgiau.

42 Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei grynodeb lefel uchel cyntaf o’r Gofrestr Risgiau Sefydliadol i’r Bwrdd ym mis Tachwedd 2025. Fodd bynnag, mae mor lefel uchel fel ei bod yn aneglur pa sicrwydd allai’r Bwrdd ei gael ohono. Mae’r termau “gweithrediadol” a “sefydliadol” yn cael eu defnyddio bob yn ail weithiau a byddai terminoleg gyson o gymorth.

43 Byddai o fudd i’r Bwrdd Iechyd adolygu trefniadau’r Gofrestr Risgiau Strategol a’r Gofrestr Risgiau Sefydliadol. Dylai’r Gofrestr Risgiau Strategol gynnwys dim ond risgiau strategol lefel-uchel y mae gan y Bwrdd Iechyd allu cyfyngedig i effeithio arnynt ond y mae angen iddo’u goruchwylio ar adegau penodol trwy gydol y flwyddyn. Dylai’r Gofrestr Risgiau Sefydliadol gynnwys y risgiau y gall y Bwrdd Iechyd gael mwy o effaith arnynt a’u lliniaru’n fwy. Dylid craffu’n fwy mynych ar y rhain nag ar y Gofrestr Risgiau Strategol. Dylai’r Bwrdd Iechyd ddyrannu risgiau sefydliadol, nid risgiau strategol, i bwyllgorau perthnasol. Byddai hyn yn galluogi pwyllgorau i reoli a monitro’r risgiau yn eu cylch gwaith, a allai effeithio ar gyflawni cynlluniau’r Bwrdd Iechyd.

44 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud peth cynnydd, nid yw wedi newid yn llwyr o gofnodi risgiau ar daenlenni i’w cofnodi ar y system Datix eto. Capasiti ac adnoddau yw’r rhesymau dros hyn, yn ogystal ag ymarferoldeb o fewn y system Datix. Mae’r Bwrdd Iechyd wrthi ar hyn o bryd yn adolygu’r ffordd fwyaf priodol o gofnodi risgiau yn y dyfodol.

## Rheoli perfformiad

45 Mae Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd yn dal i ategu perfformiad sefydliadol. Mae’r Bwrdd yn adolygu’r fframwaith yn flynyddol, gyda’r diweddariad diwethaf wedi ei gynnal ym mis Mai 2025. Diben y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig yw sicrhau bod prosesau monitro ansawdd a pherfformiad yn cyd-fynd â’i gilydd dan un system integredig.

46 Mae'r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig yn gynhwysfawr ac yn nodi rolau eglur i bwyllgorau ac arweinwyr o ran goruchwylio trefniadau rheoli perfformiad. Mae hefyd yn nodi'r trefniadau goruchwylio ac atebolrwydd a mynychder y sylw a faint o sylw a roddir i berfformiad mewn cyfarfodydd penodol. Adroddir ar berfformiad wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad trwy'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig.

47 Mae'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig yn cynnwys adran 'Heriau Perfformiad' sy'n amlygu'n glir unrhyw fethiant cyson i gyflawni gwelliannau a thaflwybrau mewn perfformiad y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn cynnwys unrhyw resymau dros uwchgyfeiriadau, ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad, a chamau gweithredu. Mae'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig llawn yn cynnwys diweddariadau manwl yn erbyn pob un o fesurau perfformiad y GIG gan gynnwys y swyddog arweiniol, heriau, camau gweithredu a lliniaru, a rhywfaint o ddadansoddi data.

48 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig cryno hefyd. Mae'r ddogfen ddefnyddiol hon yn darparu crynodeb naratif hygyrch o'r sefyllfa o ran perfformiad ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd a gwasanaethau a gomisiynir gan eraill. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r darllenydd ynghylch y meysydd hyn ac yn cryfhau goruchwyliaeth ar wasanaethau wedi'u comisiynu sydd wedi bod yn bryder i Aelodau Annibynnol.

49 Cyflwynir yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig cryno bob hyn a hyn i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae'n darparu dangosfyrddau i amlygu'r modd y mae perfformiad yn cydymffurfio gyda fersiwn lawn o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfodydd eraill.

50 Yn y dyfodol, mae ar y Bwrdd Iechyd eisiau newid i system ddigidol ar gyfer cyflwyno gwybodaeth am berfformiad gyda dangosfyrddau Power BI, ond mae'n cydnabod y cyfyngiadau cyfredol o ran capasiti sy'n effeithio ar gyflawni'r gweithgarwch hwn ar hyn o bryd.

## Monitro ansawdd a diogelwch

51 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau sy'n effeithiol fel rheol ar gyfer goruchwylio ansawdd a diogelwch ac mae wedi parhau i wreiddio trefniadau i oruchwylio'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd. Ar adeg ein gwaith ni, roeddem yn gwneud gwaith dilynol mewn perthynas â'r Adolygiad a gynhaliwyd gennym yn 2021 o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd.

52 Fe gymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Comisiynu Strategol ym mis Medi 2025. Mae'r Fframwaith Comisiynu Strategol yn amlinellu dull y Bwrdd Iechyd o gomisiynu gwasanaethau gan gynnwys ansawdd gwasanaethau wedi'u comisiynu ar gyfer trigolion Powys. Mae'r mesurau sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Comisiynu Strategol yn dal wrthi'n cael eu datblygu.

53 Fe wnaeth Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd ddisodli ei Fframwaith Ansawdd Clinigol 2020-23 ym mis Mawrth 2024. Er bod y Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig yn nodi'r mesurau a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro ansawdd a diogelwch, mae'n dal i beidio â nodi uchelgeisiau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ansawdd a diogelwch ei wasanaethau a sut y bydd yn mynd ati i'w gwireddu.

54 Cyflwynir adroddiadau ar berfformiad i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad trwy'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig. Cyflwynir Adroddiad Ansawdd Integredig ar wahân yn chwarterol i'r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch.

55 Mae'r Adroddiad Ansawdd Integredig yn darparu darlun manylach mewn perthynas â'r agenda ansawdd a diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am 'Weithio i Wella', cwynion, gwybodaeth am gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd (gan gynnwys nifer yr achosion ym mhob chwarter a data ar dueddiadau) a data ar brofiad cleifion.

56 Mae’r Adroddiad Ansawdd Integredig yn naratif iawn ac wedi’i fritho â pheth data defnyddiol, ond mae angen i’r adroddiad fod yn fwy eglur o ran adnabod meysydd sy’n achosi pryder. Nid yw’n amlwg pa wybodaeth yn yr adroddiad sy’n rhan o’r diweddariad rheolaidd ar ansawdd a pha wybodaeth yr adroddir arni fel eitem eithriadol y mae gofyn rhoi rhagor o sylw iddi. Byddai o fudd adolygu strwythur ac felly diben yr adroddiad hwn. Byddai hyn yn sicrhau ei fod yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol yn eglur ac yn gyson.

57 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf fe wnaeth y Bwrdd Iechyd roi’r Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Niwroddatblygiadol Plant mewn statws uwchgyfeirio mewnol yn unol â’r Fframwaith Ansawdd a Pherfformiad Integredig. Mae staff perthnasol wedi cyflwyno diweddariadau rheolaidd a manwl am y gwasanaethau a uwchgyfeiriwyd i’r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch gan ddarparu goruchwyliaeth dda. Mae diweddariadau'n cynnwys cynlluniau gweithredu ac adroddiadau ar gynnydd gan gynnwys diweddariad ar ffurf adroddiad pan isgyfeiriwyd Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

58 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd 2024-25 i’r Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch ym mis Gorffennaf 2025 a’r Bwrdd ym mis Medi 2025. Mae’r adroddiad yn gymysgedd llawn gwybodaeth o naratif, astudiaethau achos a data. Roedd hefyd yn rhoi diweddariad am yr isgyfeiriad a gwelliannau allweddol a wnaed yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, nid oes sôn yn yr adroddiad blynyddol am y statws uwchgyfeirio yn y Gwasanaethau Niwroddatblygiadol Plant, sy’n creu darlun anghyflawn.

## Tracio a monitro argymhellion

59 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i fonitro a thracio argymhellion, sy’n dal i ddatblygu. Mae’r Bwrdd Iechyd yn dal i adrodd ar gynnydd yn erbyn argymhellion mewnol ac allanol ddwywaith y flwyddyn wrth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd trwy adroddiad Tracio Argymhellion Archwilio. Ond mae'r adroddiad hwn yn helaeth a gall ddod yn anhylaw ac yn anodd ymdrin ag ef.

60 Mae’r adroddiad yn ddefnyddiol yn yr ystyr ei fod yn cynnwys papur eglurhaol sy’n darparu diweddariad cryno ar argymhellion archwilio mewnol ac allanol sydd naill ai wedi cael eu cwblhau ers y diweddariad diwethaf, ddim yn mynd i gael eu rhoi ar waith neu’n hwyr yn cael eu rhoi ar waith. Mae’r adroddiad hefyd yn cynnwys dadansoddiad o argymhellion sy’n dal heb gael eu rhoi ar waith fesul cyfarwyddiaeth a pha mor hen yw’r argymhelliad. Mae hyn yn darparu mewnwelediad defnyddiol i gyfarwyddiaethau a allai fod ag argymhellion arbennig o gymhleth i ymdrin â hwy neu y gall fod arnynt angen help oherwydd problem capasiti.

61 Fe wnaethom argymell yn flaenorol y dylai’r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ddull o gau argymhellion. Ni oedd rhyw lawer o wybodaeth yn cael ei darparu i roi sicrwydd bod camau gweithredu a gymerwyd wedi ymdrin ag argymhellion yn ddigonol, gan ei gwneud yn bosibl eu cau. Mae’r adroddiad Tracio Argymhellion Archwilio bellach yn cynnwys mwy o naratif i egluro pam y nodwyd fod yr argymhelliad wedi cael ei gwblhau.

62 Er gwaethaf y trefniadau a ddisgrifir uchod, mae ein hadolygiad ni o gynnydd y Bwrdd Iechyd i ymdrin ag argymhellion blaenorol wedi canfod sefyllfa gymysg, gyda:

- dim ond wyth allan o 16 o argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol wedi cael eu cwblhau bellach. Mae pump wedi cael eu cwblhau’n rhannol, a thri yn rhai lle na weithredwyd o gwbl; a
- thri o’r argymhellion o’n hadroddiad ar arbed costau wedi’u cwblhau a phump ar y gweill.

# Paratoi strategaethau a chynlluniau

## Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydweithio’n dda i ddatblygu cynlluniau, ac mae prosesau da i fonitro’r modd y’u cyflawnir, ond gallai cysylltiadau rhwng cynlluniau fod yn fwy eglur

### Cynhyrchu strategaethau a chynlluniau allweddol

63 Mae’r Bwrdd Iechyd yn dal i weithio yn ôl ei strategaeth hirdymor ‘Strategaeth Iechyd a Gofal Powys 2017-27’, a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Powys. Bydd y strategaeth yn cael ei diweddaru trwy’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyn y daw i ben yn 2027. Mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cyflwyno diweddariadau i’r Bwrdd a’r Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth wrth i’r gwaith fynd rhagddo.

64 Mae’r Bwrdd Iechyd yn gweithio yn ôl Cynllun Blynyddol ar hyn o bryd. Oherwydd heriau ariannol, nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) y gellid ei gymeradwyo. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddangos ymgysylltu da wrth ddatblygu’r Cynllun Blynyddol, gyda thrafodaethau cynllunio’n digwydd yn sesiynau Datblygu’r Bwrdd.

65 Fe graffwyd ar Gynllun Blynyddol drafft 2025-26 mewn sesiwn ar y cyd rhwng y Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth a’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Mawrth 2025 cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Fodd bynnag, nid oedd y cynllun yn cyrraedd y targedau ariannol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac ar adeg ein gwaith ni, ac roedd yn dal heb ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru oherwydd y diffyg a ragwelid ar gyfer 2025-26. Rydym yn trafod sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ym mharagraff 81.

66 Mae Cynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd wedi'i osod yng nghyd-destun y Cynllun Integredig pum mlynedd 2024-29, sydd yn ei dro o gymorth i gyflawni'r strategaeth hirdymor. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae'r Cynllun Blynyddol o gymorth i gyflawni'r Cynllun Integredig. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd fod â mwy o eglurder ynghylch sut y mae'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Blynyddol yn ategu'r blaenoriaethau yn y Cynllun Integredig.

67 Mae'r Cynllun Integredig yn cynnwys amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd. Ceir gofyniad statudol i adolygu amcanion llesiant yn flynyddol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn briodol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud hyn fel rhan o gynllun gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chyfleu hyn i bwyllgorau perthnasol y Bwrdd Iechyd fel rhan o broses y Cynllun Tymor Canolig Integredig yng ngwanwyn 2026.

68 Mae'r Cynllun Integredig hefyd yn nodi'r cynlluniau i ddatblygu model ariannol gynaliadwy ar gyfer iechyd a gofal gyda'i fodel trawsnewid 'Gwell Gyda'n Gilydd'. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu gohirio ymgyngoriadau cyhoeddus arfaethedig ynghylch newidiadau i ddarparu gwasanaethau tan ar ôl etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 i roi amser ar gyfer ymgynghori a dadansoddi. Mae hyn yn gohirio gallu'r Bwrdd Iechyd i ganlyn arni â gwaith pwysig ar ddatblygu model gwasanaeth ariannol gynaliadwy.

## Sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch gweithio mewn partneriaeth

69 Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar waith mewn partneriaeth. Mae hyn yn cynnwys y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae adroddiadau i'r Bwrdd yn amlygu'r cyfleoedd a'r heriau o ran gweithio mewn partneriaeth.

70 Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar bartneriaeth gyda byrddau iechyd eraill hefyd, gan gynnwys y ddau Gydbwyllgor Rhanbarthol a sefydlwyd yn ddiweddar yn Ne Ddwyrain a De Orllewin Cymru.

71 Ceir diweddariadau hefyd gan Gydbwyllgor Canolbarth Cymru, sy'n drefniant cydweithredol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a'r tri awdurdod lleol perthnasol. Er nad yw'n un o bwyllgorau ffurfiol y Bwrdd, mae wedi'i fwriadu i gryfhau'r modd y cynllunnir ac y darperir gwasanaethau gofal iechyd yng nghanolbarth Cymru. Mae blaenoriaethau'n cynnwys gwasanaethau wroleg a rhiwmatoleg ac ymdrin â heriau fel oedi yn achos llwybrau gofal.

72 Mae gan y Bwrdd Iechyd bartneriaeth weithio dda gyda Llais.[2] Mae'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol yn cyflwyno adroddiad ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr ymgysylltu a fu rhyngddynt a thrigolion Powys ac unrhyw sesiynau ymgysylltu arfaethedig. Mae adborth ar unrhyw themâu sy'n gysylltiedig ag iechyd gan aelodau o'r cyhoedd a diweddariadau ar nifer yr achosion eirioli yn rhanbarth Powys yn cael eu cynnwys hefyd.

73 Fe gynhyrchodd y Bwrdd Iechyd Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd Partneriaethau ym mis Mai 2025. Mae'r fframwaith yn darparu trosolwg gynhwysfawr o bartneriaethau statudol y Bwrdd Iechyd, ei bartneriaethau trwy ddewis a phartneriaethau fel ffordd o weithio. Mae'r fframwaith yn cynnwys y cylchoedd gorchwyl, arweinyddiaeth, a gwybodaeth gyllidebol, ac mae'n ddefnyddiol o ran ei fod yn amlinellu'r prosesau a chylch adrodd ar gyfer pob un o'r partneriaethau.

## Monitro'r modd y cyflawnir strategaethau/cynlluniau

74 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Integredig 2024-29 wrth y Bwrdd trwy ddiweddariadau chwarterol ar y Cynllun Cyflawni. Ar y cyfan, mae'r diweddariadau'n darparu trosolwg dda ar gynnydd yn erbyn amcanion strategol ac yn nodi canlyniadau, camau gweithredu a cherrig milltir allweddol gan gynnwys hyder ynglŷn â chyflawni.

---

[2] Llais Cymru

75 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod cynhyrchu amcanion CAMPUS wedi bod yn waith ar y gweill, ond mae'r Cynllun Blynyddol 2025-26 yn llawer mwy eglur. Mae'r adrannau Gweithgareddau Allweddol, Canlyniadau Allweddol a Graddfa Amser yn 'benodol', 'mesuradwy' ac 'amserol'. Mae hyn wedi esgor ar adran sydd â ffocws mwy pendant ac sy'n fwy ystyrlon ar gyfer meysydd cyflawni allweddol.

76 Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Bwrdd a phwyllgorau ddiweddariadau statudol rheolaidd ar gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach megis Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2024-25, a'r Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2024-25. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cyflwyno diweddariadau ar strategaethau galluogi i bwyllgorau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariad ar y Strategaeth Cyfalaf ac Ystadau i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Medi 2025 a diweddariad ar flaenoriaeth Trawsnewid a Chynaliadwyedd y Gweithlu i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mis Rhagfyr 2025.

77 Rydym wedi adrodd yn flaenorol bod gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg eglurder ynghylch y camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant a'r mesurau perfformiad strategol i ddangos yr effaith hirdymor. Felly y mae hi o hyd fel a nodwyd yn Argymhelliad 5.1 2024.

# Rheoli'r sefyllfa ariannol

## Er bod goruchwyliaeth a rheolaethau yn eu lle, mae'r sefyllfa ariannol yn peri pryder, ac mae angen rhagor o wybodaeth i gryfhau trefniadau craffu

### Cyflawni amcanion a dyletswyddau ariannol

78 Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei holl ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2024-25. O'r tair dyletswydd, fe gyflawnodd yr un sy'n ymwneud â'i derfyn adnoddau cyfalaf, gan adrodd ar danwariant bach o £50,000. Fodd bynnag:

- ni wnaeth wario o fewn ei derfyn adnoddau refeniw ar gyfer y cyfnod 2022-25; ac
- nid oedd ganddo Gynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-27.

79 Fe bennodd Llywodraeth Cymru darged i'r Bwrdd Iechyd fod â diffyg o £12 miliwn ar gyfer 2024-25. Ni chyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd y targed hwn, gan adrodd ar ddiffyg diwedd blwyddyn o £15.8 miliwn. Roedd hyn ar ôl dyraniad pellach o £7 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Adroddodd y Bwrdd Iechyd ar ddiffyg cronnol dros dair blynedd o £34.7 miliwn.

80 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun ariannol mantoledig ar gyfer 2025-26. Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun blynyddol i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 ar gyfer 2025-26 a oedd yn nodi diffyg diwedd blwyddyn a ragwelid o £38.4 miliwn. Fe ddiwygiodd y Bwrdd Iechyd ei ddiffyg diwedd blwyddyn a ragwelid i £28.3 miliwn ym mis dau. Mae hyn yn groes i gyfanswm rheoli targed gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diffyg a oedd wedi aros ar £12 miliwn.

81 Ym mis saith, mae'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn ddiffyg o £28.3 miliwn. Fodd bynnag, mae pwysau gweithrediadol a ffigyrau byrdymor hyd yma wedi'u hallosod ar gyfer y flwyddyn gyfan yn uwch na'r taflwybr y cynlluniwyd ar ei gyfer, yn bennaf oherwydd ffactorau sy'n effeithio ar gostau comisiynu. Adroddodd y Bwrdd Iechyd ar ddiffyg ar gyfer y flwyddyn hyd yma o £19.4 miliwn o'i gymharu â diffyg y cynlluniwyd ar ei gyfer o £16.5 miliwn.

82 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ragweld y bydd yn aros o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf o £6.5 miliwn gyda gwariant ar gyfer y flwyddyn hyd yma ym mis saith o £1.97 miliwn.

83 O ganlyniad i statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i'r Bwrdd Iechyd i gomisiynu cymorth allanol gan Grant Thornton ym mis Gorffennaf 2025. Mae Grant Thornton wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i'w gynorthwyo mewn tri phrif faes: cynaliadwyedd ariannol, comisiynu a Gofal Iechyd Parhaus. Cafodd y Bwrdd Iechyd yr adroddiad drafft a oedd yn nodi canfyddiadau gwaith Grant Thornton ym mis Rhagfyr 2025 ac roedd yn ystyried ei ganfyddiadau ar adeg paratoi'r adroddiad asesu strwythuredig hwn.

## Trefniadau cynllunio ariannol

84 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses eglur i ddatblygu ei gynllun ariannol. Fe graffodd aelodau'r Bwrdd ar ddatblygiad y cynllun ac ar y cynllun ei hun cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

85 Mae cynllun ariannol 2025-26 yn nodi nifer o risgiau y mae angen i'r Bwrdd Iechyd eu rheoli. Yn ogystal â gweithgarwch comisiynu, mae'r rhain hefyd yn cynnwys galw am ddefnyddio asiantaethau, a nifer cynyddol o leoliadau anableddau dysgu ac iechyd meddwl oedolion gyda darparwyr preifat sy'n creu pwysau ariannol ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

86 Fe gyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei gynlluniau arbedion yn 2024-25. Cyflawnodd £11.7 miliwn o arbedion yn erbyn ei darged o £9.9 miliwn. Fodd bynnag, bwriad y Bwrdd Iechyd oedd bod £9.9 miliwn yn arbedion cylchol. Dim ond £6.6 miliwn oedd yn gylchol gyda diffyg o £3.2 miliwn yn erbyn y targed. O ganlyniad, roedd yr arbedion hyn yn anghynaliadwy, a bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod arbedion cylchol yn cael eu cyflawni ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy.

87 Nid yw'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd cywir ar hyn o bryd o ran ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2025-26. Mae cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2025-26 yn seiliedig ar ofyniad i gyflawni gwerth £23.1 miliwn o arbedion. O ran y sefyllfa ym mis saith, mae'r Bwrdd Iechyd wedi adnabod gwerth £18.2 miliwn o arbedion ar gyfer 2025-26, gyda bwlch o £4.8 miliwn yn dal heb ei ganfod. Mae hanner yr arbedion a adnabuwyd yn rhai cylchol. Y maes mwyaf ar gyfer arbedion targed yw comisiynu.

88 Ceir risgiau o hyd sy'n gysylltiedig â chapasiti timau i gyflawni'r arbedion gofynnol. O ran y sefyllfa ym mis saith, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni gwerth £8.5 miliwn, gyda gwerth £14.6 miliwn yn dal ar ôl i'w cyflawni dros y pum mis a oedd yn weddill o'r flwyddyn.

89 Mae perfformiad o ran arbedion yn dal i fod yn destun gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd, ond mae'r ffocws yn gyfan gwbl ar adnabod cynlluniau arbedion. Er bod yr adroddiad cyllid yn nodi'r targedau o ran arbedion wedi'u cynllunio fesul maes, nid yw'r adroddiad yn cynnwys arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd hyd yma. Nid yw'r adroddiad yn nodi ychwaith ble nad yw cyflawni arbedion ar y trywydd iawn, ac unrhyw gamau lliniaru. Mae hyn yn golygu nad adroddir ar arbedion a gyflawnwyd mewn gwirionedd tan ddiwedd y flwyddyn, sy'n ei gwneud hi'n anodd craffu ar realiti'r sefyllfa ariannol trwy gydol y flwyddyn.

90 Yn 2024, fe wnaeth Archwilio Cymru adolygu dull y Bwrdd Iechyd o arbed costau. O'r wyth argymhelliad yn yr adroddiad hwnnw, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd ond mae ganddo fwy i'w wneud. Mae pob un o'r wyth argymhelliad yn dal i fod ar y gweill. Caiff meysydd lle mae gofyn gwneud rhagor o gynnydd eu nodi yn **Atodiad 2**.

## Trefniadau rheoli ariannol

91 Mae’r rheolaethau ariannol disgwyliedig yn eu lle gan y Bwrdd Iechyd. Mae’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn adolygu’r Rheolau Sefydlog a’r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn rheolaidd. Mae’r Pwyllgor hefyd yn cael sicrwydd bod rheolaethau ariannol priodol yn eu lle, ac mae’n adolygu colledion, taliadau arbennig, gweithredoedd tendr sengl, ac adroddiadau gwirio ar ôl gwneud taliadau yn rheolaidd. Ym mis Tachwedd 2024, darparodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol sicrwydd sylweddol ynghylch trefniadau rheoli trysorlys y Bwrdd Iechyd fel rhan o’i gylch pedair blynedd i adolygu’r systemau ariannol craidd.

92 Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i fod â threfniadau gwrth-dwyll da. Ceir cynllun gwaith blynyddol y cytunwyd arno ac mae adroddiadau rheolaidd i’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn dangos yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn y cynllun.

93 Fodd bynnag, mae’r Bwrdd Iechyd yn dal i orwario. Ceir adroddiadau manylach o hyd ar feysydd gwariant allweddol ar lefelau'r Bwrdd a phwyllgorau. Mae gweithgorau, megis y Grŵp Lleihau Cyflog Amrywiol, yn eu lle hefyd i reoli gwariant, ac mae adolygiadau dwfn ar bob un o’r gweithgorau wedi cael eu darparu. Mae’r adroddiad cyllid diweddaraf i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2025 yn amlygu bod gwariant ar asiantaethau’n lleihau ar y cyfan.

94 Er bod hyn yn gadarnhaol, nid yw’n glir beth fu effaith y Grŵp Lleihau Cyflog Amrywiol. Mae’r adroddiad yn nodi bod y grŵp yn rhoi cynllun gweithredu manwl ar waith ond nid yw’n cyflwyno unrhyw wybodaeth i roi sicrwydd ynghylch beth yw’r cynllun gweithredu, pa wahaniaeth ddylai ei wneud a sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn mesur hyn ac yn adrodd arno. Felly y mae hi hefyd ar gyfer gweithgorau sy’n canolbwyntio ar feysydd eraill sy’n achosi pwysau ariannol megis comisiynu ac iechyd meddwl.

95 Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddatganiadau ariannol drafft ar gyfer archwiliad allanol o fewn y graddfeydd amser gofynnol. Ni chanfu ein harchwiliad unrhyw gamddatganiadau perthnasol ond fe ganfu rai meysydd lle'r oedd angen gwneud cywiriadau. Canfu ein harchwiliad hefyd faterion gyda chroniadau Gofal Iechyd Parhaus (GIP) yr oedd yn ofynnol gwneud gwaith ychwanegol arnynt ac a olygodd na chafodd y cyfrifon terfynol eu hardystio tan 1 Awst 2025.

96 Fe gyhoeddom ni farn ddiamod mewn perthynas â chywirdeb a thegwch y cyfrifon, ond barn amodol ynglŷn â rheoleidd-dra am bod y Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i'w derfyn adnoddau refeniw dros y cyfnod treigl o dair blynedd o 2022-25. Mae o gymorth bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal ymarfer dysgu ar y mater a oedd yn ymwneud â chroniadau GIP ac wedi adrodd ar y gwersi a ddysgwyd a'r camau gweithredu a oedd ar y gweill wrth y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Hydref 2025.

## Monitro perfformiad ariannol

97 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da i adrodd ar berfformiad ariannol, er bod angen rhagor o wybodaeth.

98 Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ar berfformiad ariannol ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae adroddiadau cyllid a pherfformiad bellach yn cael eu rhestru gyda'i gilydd ar agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd i sicrhau bod unrhyw risgiau i ansawdd a pherfformiad yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r heriau ariannol. Mae uwch swyddogion yn bresennol mewn cyfarfodydd i roi diweddariadau am unrhyw wybodaeth berthnasol ynghylch y sefyllfa ariannol ac i ateb unrhyw ymholiadau.

99 Yn adroddiad asesu strwythuredig y llynedd, fe wnaethom sylw a oedd yn dweud, er bod adroddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgor yn parhau i amlygu risgiau ariannol allweddol i'r sefyllfa ariannol, bod angen bod yn fwy eglur ynghylch effaith camau lliniaru. Felly y mae hi o hyd. Fel a amlygwyd ym mharagraff 89, mae angen i'r adroddiad cyllid gynnwys rhagor o wybodaeth am y sefyllfa o ran cyflawni arbedion hefyd.

100 Er gwaethaf y materion a nodir yn y paragraff uchod, mae Aelodau Annibynnol yn dal i fod o'r farn bod adroddiadau cyllid yn eglur ac esboniadol. Canfu ein harsylwadau ni fod craffu a herio mewn perthynas â pherfformiad ariannol wedi cynyddu. Fodd bynnag, clywsom y byddai Aelodau Annibynnol yn gwerthfawrogi mwy o hyfforddiant ar gyllid i'w galluogi i wella trefniadau craffu ymhellach yn unol â'r pwysau ariannol sy'n datblygu, heriau o ran cyflawni arbedion a rheoli risgiau.

# Argymhellion

Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr argymhellion a gododd o'n gwaith.

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai logiau gweithredu pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd nodi'n glir at ba grŵp y mae camau gweithredu wedi cael eu hatgyfeirio a'r hyn y maent yn disgwyl i'r grŵp ei wneud oherwydd yr atgyfeiriad (**paragraff 22**). |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd ati ymhellach i fireinio'r modd y mae'n rheoli ei gofrestrau risgiau strategol a sefydliadol. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu beth sy'n risg strategol a beth sy'n risg sefydliadol. Wedyn dylai risgiau sefydliadol gael eu dyrannu i bwyllgor perthnasol ar gyfer craffu a monitro (**paragraff 43**). |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru strwythur yr Adroddiad Ansawdd Integredig i sicrhau bod meysydd y mae gofyn rhoi sylw pellach iddynt yn cael eu hadnabod yn glir (**paragraff 56**). |

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd ei gwneud yn gliriach sut y mae'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Blynyddol yn ategu'r blaenoriaethau yn y Cynllun Integredig (**paragraff 66**).

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei adroddiadau cyllid yn cynnwys gwybodaeth am arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd hyd yma. Dylai hyn gynnwys ble nad yw gweithgarwch i gyflawni arbedion ar y trywydd iawn, ac unrhyw gamau lliniaru (**paragraff 89**).

A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd yn fwy eglur ar weithgarwch ac effaith gweithgorau a sefydlwyd i liniaru pwysau ariannol. Mae hyn yn cynnwys y Gweithgor Cyflog Amrywiol, y Gweithgor Comisiynu, a'r Gweithgor Iechyd Meddwl a ddylai gael eu ffurfioli mewn strwythurau adrodd sy'n rhan o drefniadau llywodraethu. Byddai hyn yn gwella'r sicrwydd yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd ynghylch y gwahaniaeth y mae'r grwpiau'n ei wneud (**paragraff 94**).

A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd drefnu rhagor o hyfforddiant ar gyllid ar gyfer Aelodau Annibynnol i'w galluogi i wella gwaith craffu ymhellach yn unol â'r heriau sy'n datblygu o ran pwysau ariannol (**paragraff 100**)

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar y meysydd canlynol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2025:

- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn gweithio.
- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn goruchwylio risgiau, perfformiad ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn tracio argymhellion.
- Pa mor dda y mae'r corff yn paratoi strategaethau a chynlluniau allweddol.
- Pa mor dda y mae'r corff yn rheoli ei gyllid.

Ni wnaethom fwrw golwg ar drefniadau gweithrediadol y corff.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe wnaeth ein harchwiliad ymdrin â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol, ac yn dryloyw?
- A oes dull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau?
- A oes dull corfforaethol cadarn o gynhyrchu cynlluniau strategol a goruchwylio'r modd y'u cyflawnir?
- A oes dull corfforaethol cadarn lle mae cynllunio, rheoli a pherfformiad ariannol yn y cwestiwn?

### Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cynlluniau Cadw a Dirprwyo Pwerau;
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol;

- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol gan Lywodraeth Cymru; a hefyd
- Y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Rifyn).

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau;
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog;
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y CTCI;
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol; a hefyd
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Y Prif Weithredwr;
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Cyfalaf a Gwasanaethau Cymorth a'r Dirprwy Brif Weithredwr;
- Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd;
- Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu;
- Cadeirydd y Bwrdd;
- Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch;
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd;
- Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad; a hefyd
- Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth.

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd;
- Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad;
- Y Pwyllgor Cynllunio, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth; a hefyd
- Y Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch.

# 2 Argymhellion archwilio blaenorol

## Argymhellion a oedd yn dal yn weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu argymhellion a oedd yn dal yn weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

| **Argymhellion 2022** | |
|---|---|
| A3 | Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiweddaru sy'n mapio'r holl gyfleoedd a risgiau i gyflawni amcanion strategol, yn adnabod bylchau mewn sicrwydd, ac yn goleuo cynlluniau gwaith y Bwrdd a phwyllgorau. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (**Wedi'i gwblhau, paragraff 37**). |
| A4 | Ceir diffyg cysylltiad ar hyn o bryd rhwng cofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r holl risgiau uchel ar gofrestrau risgiau cyfarwyddiaethau i sicrhau bod y rhai perthnasol yn cael eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a bod y Bwrdd yn ymwybodol o risgiau ehangach a allai ddod yn ffaith (**Wedi'i gwblhau, paragraff 41**). |

A5 Ceir cyfleoedd i wella mynediad y cyhoedd at ddogfennau allweddol y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau:

a) bod polisïau a gweithdrefnau, a'r gofrestr buddiannau ar y wefan gyhoeddus, yn hygyrch (**Yn rhannol, paragraff 13**)

**Argymhellion 2023**

A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau ar gyfer sesiynau crwydro gan y Bwrdd trwy:

3.1. Datblygu blaenraglen sy'n cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol ac yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd (**Wedi'i gwblhau, paragraff 29**); a

3.2. Datblygu fframwaith sy'n nodi sut y dylai'r sesiwn grwydro weithredu, a'r mecanweithiau ar gyfer adrodd ar themâu allweddol (**Wedi'i gwblhau, paragraff 30**)

A5 Dylai'r Bwrdd Iechyd gynyddu cyflymder symud risgiau a gofnodir ar daenlenni ar hyn o bryd i fodiwl risgiau Datix. (**Yn rhannol, paragraff 44** – Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod na fydd yn amcanu at ymdrin â'r argymhelliad hwn.)

**Argymhellion 2024**

A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd ei gwneud yn ofynnol i staff â goruchwyliaeth sylweddol ar gyllidebau a/neu ddylanwad sylweddol ar drefniadau comisiynu ddarparu gwybodaeth am unrhyw fuddiannau perthnasol a chynnwys yr wybodaeth hon ar y Gofrestr Buddiannau (**Wedi'i gwblhau, paragraff 12**).

A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro ei uchelgeisiau ar gyfer ansawdd a diogelwch ei wasanaethau a sut y bydd yn mynd ati i'w gwireddu (**Dim gweithredu, paragraff 56**).

A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r modd y mae'n tracio argymhellion trwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i sicrhau'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd bod camau gweithredu a gymerwyd wedi ymdrin â'r argymhellion yn effeithiol (**Wedi'i gwblhau, paragraff 61**).

A4 Dylai'r Bwrdd Iechyd:

4.1. Sicrhau bod adolygiadau blynyddol o'i amcanion llesiant yn cael eu cyfleu'n glir (**Yn rhannol, paragraff 67**)

4.2. Sicrhau bod adolygiad o'i strategaeth hirdymor i gadarnhau ei phriodoldeb parhaus ar ôl y pandemig ac yng ngoleuni'r heriau ariannol yn cael ei gyfleu ac yn cyfrannu at gynlluniau i adolygu'r strategaeth yn y dyfodol (**Yn rhannol, paragraff 63**).

A5 Fel rhan o'i drefniadau cynllunio craidd, dylai'r Bwrdd Iechyd nodi a monitro'r canlynol yn glir:

5.1. Y camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant dros rychwant oes ei strategaeth hirdymor (**Dim gweithredu, paragraff 77**); a

5.2. Mesurau perfformiad strategol i gyd-fynd â'i amcanion llesiant sy'n cyfleu'r effaith hirdymor y mae'n ceisio ei chyflawni (**Dim gweithredu, paragraff 77**).

A6 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau adroddiadau sy'n nodi cynnydd yn erbyn strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach trwy ddisgrifio'n glir ble nad yw ar y trywydd iawn o ran eu cyflawni, camau lliniaru, a graddfeydd amser diwygiedig ar gyfer cyflawni (**Wedi'i gwblhau, paragraff 76**).

A7 Dylai'r Bwrdd Iechyd adnabod, monitro a rheoli unrhyw risgiau uniongyrchol i ansawdd a pherfformiad a allai godi oherwydd yr heriau ariannol parhaus (**Wedi'i gwblhau, paragraff 99**).

A8 Dylai'r Bwrdd Iechyd ddarparu mwy o sicrwydd mewn adroddiadau cyllid ynghylch effaith camau lliniaru i ymdrin â risgiau ariannol allweddol (**Yn rhannol, paragraff 99**).

# Argymhellion o'n Hadolygiad yn 2024 o Drefniadau Arbed Costau

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran rhoi argymhellion ar waith o'n Hadolygiad yn 2024 o Drefniadau Arbed Costau.

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflymu gwaith i gyflwyno'r Model Cynaliadwy Carlam a mynd ati'n llawn i feintioli'r costau ac arbedion posibl a fydd yn codi trwy ei gyflwyno er mwyn gosod ei gyllid ar sylfaen fwy cynaliadwy (**Ar y gweill, paragraff 68**). |
| A2 | Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o ddefnydd o'i adolygiadau Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT) sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Bwrdd Iechyd fel ffynhonnell bellach ar gyfer gwybodaeth bosibl i oleuo ei drefniadau adnabod arbedion (**Wedi'i gwblhau**) |
| A3 | Dylai'r Bwrdd Iechyd osod targedau heriol ond realistig ar gyfer ei gynlluniau arbedion unigol. Dylai hefyd ddatblygu cynlluniau gweithredu sy'n gadarn ond y gellir eu cyflawni ar gyfer ei gynlluniau ynghyd â threfniadau cyflawni addas i sicrhau eu bod yn cyrraedd eu nodau bwriadedig (**Ar y gweill, paragraff 89**). |
| A4 | Dylai'r Bwrdd Iechyd ehangu ei asesiad o gapasiti y tu hwnt i'w Dîm Cyllid i adnabod a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg neu fylchau yn yr adnoddau sydd ar gael yn ei dimau gweithrediadol ehangach (**Ar y gweill, paragraff 83**). |

| | |
|---|---|
| A5 | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau'n gyflym bod ganddo ddealltwriaeth gyflawn a thrylwyr am y sgiliau, capasiti ac adnoddau (gan gynnwys ym meysydd arloesi a gwella) i gyflawni'r Model Cynaliadwy Carlam yn effeithiol (**Ar y gweill, paragraff 83**). |
| A6 | Dylai'r Bwrdd Iechyd adnabod yn glir beth yw'r risgiau i gyflawni arbedion a'r camau lliniaru yn ei drefniadau rheoli risgiau corfforaethol a gweithrediadol (**Ar y gweill, paragraff 89**). |
| A7 | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd flaenoriaethu sut orau i droi ei gynlluniau arbedion coch yn gynlluniau gwyrdd ac ambr cylchol sydd â siawns realistig o gyflawni'r arbedion a adnabuwyd (**Wedi'i gwblhau, paragraff 87**). |
| A8 | Dylai'r Bwrdd Iechyd adnabod y gwersi allweddol o'i ddull o adnabod a chyflawni arbedion yn gyflym yn ystod 2023-24 a chymhwyso'r gwersi i'w ddull yn y dyfodol gan amcanu at ddibynnu'n llai ar arbedion anghylchol (**Wedi'i gwblhau, paragraff 86**). |

# 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cofrestr Buddiannau** | Mae'r Gofrestr Buddiannau'n helpu i sicrhau tryloywder trwy gofnodi unrhyw fuddiannau personol neu fusnes gan aelodau'r Bwrdd a staff a allai ddylanwadu ar benderfyniadau. |
| **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** | Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi risgiau arwyddocaol y sefydliad (naill ai'r rhai â sgoriau uchel neu ag effaith ar draws y sefydliad cyfan) a'r camau gweithredu sydd yn eu lle i'w rheoli. |
| **Colledion** | Mae colledion yn cynnwys pethau fel lladrad, twyll, gordaliadau, neu ddifrod i eiddo. |
| **Cyfanswm Rheoli Targed** | Ystyr Cyfanswm Rheoli Targed yw targed cyllideb neu ddiffyg a bennir gan Lywodraeth Cymru y mae disgwyl i un o gyrff y GIG ei gyrraedd neu wneud yn well nag ef erbyn diwedd y flwyddyn ar gyfer y briod flwyddyn ariannol. |
| **Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog** | Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn nodi'r cyfrifoldebau, polisïau a gweithdrefnau ariannol a fabwysiadwyd gan y sefydliad. |
| **Cynllun Cadw a Dirprwyo** | Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo'n nodi pa gyfrifoldebau sy'n aros gyda'r Bwrdd, a pha rai a drosglwyddir i bwyllgorau a swyddogion gweithredol, ynghyd â threfniadau adrodd i sicrhau goruchwyliaeth briodol. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cynllun Tymor Canolig Integredig** | Cynllun tair blynedd yw Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol i adennill costau. Mae'r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i gael ei gymeradwyo. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** | Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio'n gynaliadwy ac yn gydweithredol i wella llesiant ar draws meysydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, trwy bennu nodau hirdymor (a elwir yn amcanion llesiant), cynnwys dinasyddion, a gwneud penderfyniadau sy'n ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol. |
| **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** | Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad, a'r rheolaethau a'r sicrwydd sydd yn eu lle i reoli'r risgiau hynny. |
| **Gweithred Tendr Sengl** | Ystyr Gweithred Tendr Sengl yw pan fo sefydliad yn prynu nwyddau neu wasanaethau gan un cyflenwr heb fynd trwy broses gystadleuol, fel arfer am mai dim ond un opsiwn addas sydd neu am bod eu hangen ar frys. |
| **Gwrth-Dwyll** | Mae gwrth-dwyll yn cyfeirio at y gweithgarwch a gyflawnir gan y sefydliad i atal, canfod ac ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Arweinir y gwaith hwn gan Wasanaeth Gwrth-Dwyll y GIG yng Nghymru, sy'n gweithredu dan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Llywodraethu Ansawdd** | Ystyr llywodraethu ansawdd yw'r cyfuniad o strwythurau, prosesau ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain ar berfformiad a sicrhau perfformiad o ansawdd da, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd, a phrofiad cleifion. |
| **Rheolau Sefydlog** | Mae rheolau sefydlog yn nodi'r rheolau a gweithdrefnau ar gyfer sut y mae'r sefydliad yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau. |
| **Strategaeth Glinigol** | Ystyr Strategaeth Glinigol yw cynllun hirdymor sy'n helpu i siapio sut y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu dylunio a'u darparu i ddiwallu anghenion cleifion a chymunedau. |
| **Taliadau Arbennig** | Ystyr taliadau arbennig yw taliadau unigol a wneir mewn sefyllfaoedd anarferol – fel iawndal neu arwydd o ewyllys da – sydd y tu allan i weithgarwch busnes arferol y sefydliad. |

# 4 Ffurflen ymateb y rheolwyr

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| A1<br><br>Dylai logiau gweithredu pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd nodi'n glir at ba grŵp y mae camau gweithredu wedi cael eu hatgyfeirio a'r hyn y maent yn disgwyl i'r grŵp ei wneud oherwydd yr atgyfeiriad (**paragraff 22**). | Wedi'i dderbyn a'i gwblhau.<br><br>Bydd logiau gweithredu'n cael eu haddasu i sicrhau bod diben yr atgyfeiriad ac unrhyw gamau gweithredu/adroddiadau dilynol yn cael eu mynegi'n glir. | 1 Ebrill 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd |
| A2<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd fynd ati ymhellach i fireinio'r modd y mae'n rheoli ei gofrestrau risg**iau** strategol a sefydliadol. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu beth sy'n risg strategol a beth sy'n risg sefydliadol. Wedyn dylai risgiau | Wedi'i dderbyn.<br><br>Bydd y Fframwaith Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael eu hadolygu a'u halinio i sicrhau cysondeb ac eglurder. | 30 Mai 2026 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| sefydliadol gael eu dyrannu i bwyllgor perthnasol ar gyfer craffu a monitro (**paragraff 43**). | | | |
| A3<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a diweddaru strwythur yr Adroddiad Ansawdd Integredig i sicrhau bod meysydd y mae gofyn rhoi sylw pellach iddynt yn cael eu hadnabod yn glir (**paragraff 56**) | Wedi'i dderbyn a'i gwblhau.<br>Mae adroddiad a ail-ystyriwyd wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol a bydd yn cael ei gyflwyno i'n Pwyllgor Profiad Cleifion, Ansawdd a Diogelwch ym mis Ebrill 2026.<br>Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel ei fod yn gwahanu tair elfen allweddol: cudd-wybodaeth, triongli a sicrwydd. Wedyn mae adran wedi'i neilltuo i gydymffurfio'n darparu sicrwydd yn erbyn safonau rheoleiddiol a chenedlaethol allweddol. Mae'r dull hwn wedi'i fwriadu i wella gwelededd dysgu, ategu dealltwriaeth fwy integredig am risg, a chryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i lywio gwelliant a dargedir. | Ebrill 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd, ac Iechyd Menywod a Theuluoedd |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| A4<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd ei gwneud yn gliriach sut y mae'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Blynyddol yn ategu'r blaenoriaethau yn y Cynllun Integredig. (**paragraff 66**) | Wedi'i dderbyn a'i gwblhau'n rhannol.<br><br>Mae'r Blaenoriaethau Strategol yn y Cynllun Integredig yn llifo o'r Strategaeth Iechyd a Gofal ar y Cyd, sy'n cynnwys yr Amcanion Llesiant statudol. Mae'r blaenoriaethau strategol ym mhob cylch Cynllunio Blynyddol dilynol yn llifo o'r Strategaeth Iechyd a Gofal ar y Cyd hefyd (a thrwy hynny'r Cynllun Integredig); fodd bynnag, byddwn yn eu diweddaru ym mhob cylch cynllunio blynyddol yn unol ag arfer gorau o ran datblygu strategaeth; i sicrhau ein bod yn ymateb i'r cyd-destun allanol newidiol a Fframwaith Cynllunio blynyddol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn adolygu hyn yn gyson. | | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformiad a Chomisiynu |

| **Argymhelliad** | **Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig** | **Dyddiad cwblhau** | **Swyddog cyfrifol** |
|---|---|---|---|
| A5<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei adroddiadau cyllid yn cynnwys gwybodaeth am arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd hyd yma. Dylai hyn gynnwys ble nad yw gweithgarwch i gyflawni arbedion ar y trywydd iawn, ac unrhyw gamau lliniaru (**paragraff 89**). | Wedi'i dderbyn<br><br>Bydd yr adroddiad cyllid i'r Bwrdd yn cael ei addasu i gynnwys gwybodaeth am arbedion gwirioneddol a gyflawnwyd hyd yma. Bydd sylwebaeth briodol yn cael ei chynnwys. | 30 Gorffennaf 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Ystadau a Gwasanaethau Cymorth |
| A6<br><br>Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd yn fwy eglur ar weithgarwch ac effaith gweithgorau a sefydlwyd i liniaru pwysau ariannol. Mae hyn yn cynnwys y Gweithgor Cyflog Amrywiol, y Gweithgor Comisiynu, a'r Gweithgor Iechyd Meddwl a ddylai gael eu ffurfioli mewn strwythurau adrodd sy'n rhan o drefniadau llywodraethu. Byddai | Wedi'i dderbyn<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfres o Adolygiadau Dwfn o feysydd sy'n peri pryder. Cyflwynir y rhain i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod yr holl weithgorau wedi'u cynnwys yn yr amserlen. | 31 Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Ystadau a Gwasanaethau Cymorth |

| Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| hyn yn gwella'r sicrwydd yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd ynghylch y gwahaniaeth y mae'r grwpiau'n ei wneud (**paragraff 94**). | | | |
| A7<br>Dylai'r Bwrdd Iechyd drefnu rhagor o hyfforddiant ar gyllid ar gyfer Aelodau Annibynnol i'w galluogi i wella gwaith craffu ymhellach yn unol â'r heriau sy'n datblygu o ran pwysau ariannol (**paragraff 100**). | Wedi'i dderbyn<br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu sesiwn hyfforddi benodol ar gyllid i Aelodau Annibynnol. | 30 Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Ystadau a Gwasanaethau Cymorth |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.